Dyddiad cyhoeddi: 30 Mai 2017

Cyfarwyddyd i adain gyflogau Caerffili dalu cyflogau newydd i swyddogion 'Hay Group'

Rydym bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais ar 29 Ebrill 2017, sef cais am **"y 'ddogfen' neu'r 'offeryn' a gyfarwyddodd y swyddog o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd yn gyfrifol am dalu cyflogau cyflogeion y Cyngor i weithredu cyflogau newydd ar gyfer Hay Group o 1 Awst 2012"**

Er bod gennym adroddiad y Prif Weithredwr i'r Uwch Bwyllgor Tâl ar 5 Medi 2012, ynghyd ag adroddiad Hay Group, fel y nodwyd yn adroddiad yr archwilydd penodedig ac luniwyd er budd y cyhoedd ym mis Mawrth 2013, nid cyfarwyddiadau oedd y dogfennau hyn, ac nid oes gennym wybodaeth sydd yn cyd-fynd â'r disgrifiad yn eich cais. Efallai y bydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wybodaeth sydd yn cyd-fynd â'ch disgrifiad, felly efallai y byddwch yn dymuno cyflwyno cais i'r Cyngor.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch ein hymdriniaeth â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,